

**Cyfeirnod:** IR753

**Dyddiad cyhoeddi:** 21 Medi 2020

## Dilysu Manylion Adnabod

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cais am wybodaeth dyddiedig 25 Awst 2020 pan wnaethoch ofyn am wybodaeth am ddilysu manylion adnabod.

Er hwylustod, rwyf wedi atgynhychu eich cwestiynau isod ac wedi nodi ein hymatebion cyfatebol.

### **1) Rhestrwch y gwasanaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr gadarnhau eu hunaniaeth drwy anfon ffurfiau ffisegol o ddogfennaeth (e.e. pasbort)?**

*Gan nad yw Archwilio Cymru (Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru) yn darparu gwasanaethau trafodol i unigolion, nid oes gennym wybodaeth sy'n berthnasol i'ch disgrifiad.*

*Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y Senedd a'r Llywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Corff, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo hefyd y pŵer i adrodd i'r Senedd ar ba mor gynaliadwy, effeithlon ac effeithiol y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau, a sut y gallent wella'r defnydd ohonynt, wrth gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal astudiaethau gwerth am arian â llywodraethau lleol ac yn arolygu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.*

*Rydym yn gofyn am ddilysu hunaniaeth at ddibenion mewnol penodol, megis cyflogaeth, ond nid yw hynny'n wasanaeth.*

### **1a) Ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn, faint o hunaniaethau a ddilyswyd fel hyn ym mlwyddyn ariannol 2019/20, a faint gostiodd hynny i'w brosesu?**

*Heb ei gynnal—gweler uchod*

**1b) A yw'r gwiriadau hyn yn cael eu cyflawni gan drydydd parti neu'n cael eu cynnal gan dîm mewnol?**

*Heb ei gynnal—gweler uchod*

**2) Rhestrwch y gwasanaethau sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddefnyddio dull digidol ar gyfer profi eu hunaniaeth; ac enwch y dulliau a ddefnyddir (e.e. Gov.UK Verify neu ddull adnabod biometrig digidol cyfatebol arall)?**

*Heb ei gynnal—gweler uchod*

**2a) Ar gyfer pob un o'r gwasanaethau hyn, faint o hunaniaethau a ddilyswyd fel hyn yn eich blwyddyn ariannol 2019/20, a faint gostiodd hynny i'w brosesu?**

*Heb ei gynnal—gweler uchod*

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu gwestiynau am fy ffordd o ymdrin â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir

Swyddog Gwybodaeth